

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro, Practis
Deintyddol Wyndham
House**

25 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Wyndham House, Boverton Road, Llanilltud Fawr, CF61 1XZ, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 25 Mawrth 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.¹

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. [Gwneud yn dda, Gwneud yn Well](#)

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Wyndham House yn darparu gwasanaethau i gleifion yn nhref Llanilltud Fawr. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol sy'n dwyn yr enw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r ddeintyddfa'n cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un orthodontydd, un deintydd dan hyfforddiant, a dau hylenydd. Mae'r tîm deintyddol hefyd yn cynnwys pum nyrs ddeintyddol (a gweithiai un ohonynt fel rheolwr rhan amser y practis a dwy arall fel nyrsys deintyddol dan hyfforddiant) a dau dderbynydd.

Darperir ystod lawn o wasanaethau deintyddol y GIG a deintyddiaeth breifat, sy'n cynnwys y canlynol:

- Asesiadau a thriniaethau'r geg
- Hylendid deintyddol
- Mewnblaniadau deintyddol
- Orthodonteg
- Deintyddiaeth gosmetig a chymhleth
- Tynnu dannedd, llenwadau'r gwreiddyn, pontydd a dannedd gosod

Mae Wyndham House yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Mae'r prif ddeintydd hefyd yn hyfforddwr Deintyddol Sylfaenol cymwys. O ganlyniad, mae'r practis yn cynnig lleoliadau a chymorth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau eu gradd brifysgol).

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Wyndham House yn bodloni'r safonau gofal yn nogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau yn holiaduron AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Roedd gwybodaeth fanwl am y practis ar gael ar wefan y practis ac yn nhaflen y cleifion, a oedd ar gael yn hawdd yn y dderbynfa.

Gwelsom fod agwedd broffesiynol a chymwynasgar gan y staff wrth siarad â chleifion dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Roeddem o'r farn bod y cyfleusterau clinigol yn y practis o safon uchel. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel ac i leihau'r perygl o groes-heintio.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn cynnwys gwybodaeth gyson a manwl a oedd yn eglur, yn berthnasol ac yn hawdd i'w dilyn. Dangosai hyn fod gofal a thriniaethau wedi cael eu cynllunio er mwyn sicrhau bod safon dda i'r gofal a bod pwyslais ar ddiogelwch cleifion.

Nodwyd dau faes sydd angen eu gwella. Roedd y rhain yn ymwneud â chynnwys ffeil diogelwch ymbelydredd y practis a rhai elfennau o'r broses ddadheintio.

Roedd y practis deintyddol yn sefydledig ac yn cael ei redeg yn dda gan y prif ddeintydd. Câi gefnogaeth rheolwr y practis a thîm eiddgar a brwdfrydig. Roedd gan y practis systemau rheoli a phrosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.

Roedd safle'r practis yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Roedd pob rhan o'r adeilad yn lân, yn groesawgar, yn ffres ac yn daclus.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dyweddodd y cleifion a roddodd sylwadau yn holiaduron AGIC eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Roedd gwybodaeth fanwl am y practis ar gael ar wefan y practis ac yn nhaflen y cleifion, a oedd ar gael yn hawdd yn y dderbynfa.

Gwelsom fod agwedd broffesiynol a chymwynasgar gan y staff wrth siarad â chleifion dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Am bythefnos cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y cleifion a fynychodd y practis i lenwi holiadur AGIC. O ganlyniad, gwnaethom dderbyn 19 holiadur yn eu hôl. Gwnaeth yr holl gleifion a roddodd sylwadau ddynodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y practis, a'u bod yn teimlo eu bod wedi derbyn croeso gan dîm y practis a digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

'Gwasanaeth ardderchog'

'Mae staff y practis bob amser yn barod i fodloni ein dymuniadau wrth drefnu apwyntiadau, ac mae [enw deintydd] yn fendigedig, yn arbennig gyda fy mhlentyn tair oed!'

'Maen nhw i gyd yn serchog iawn ac yn barod eu cymwynas'

'Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn'

Dyweddodd y cleifion wrthym hefyd nad oeddent wedi profi unrhyw oedi sylweddol wrth gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y staff fod proses ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd neu hylenydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl.

Gwelsom fod gan gleifion gyfleoedd i roi adborth ar y gwasanaeth a gawsant. Er enghraifft, gwelsom ganlyniadau arolwg a wnaed gan y practis ym mis Hydref 2014 i gywain barn y cleifion ar y gwasanaethau a ddarperid. O'r 23 o ffurflenni arolwg a gwblhawyd ar y pryd, roedd 21 wedi nodi bod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'rhagorol'; crybwyllodd y ddau glaf a oedd yn weddill amheuan bychain ynghylch mynediad a chostau triniaethau deintyddol. Wrth sgwrsio â rheolwr y practis, gwelwyd bod y practis wedi cymryd camau cadarnhaol mewn

perthynas â'r materion hyn, cyhyd ag y bo modd. Dywedwyd wrthym hefyd bod tîm y practis yn gwneud pob ymdrech i weld p'un a yw cleifion yn fodlon ar eu gofal a'u triniaeth cyn iddynt adael y practis, a hynny'n ddyddiol.

Pan ofynnwyd ynghylch gwneud cwyn, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod naill ai'n gwybod sut i fynegi unrhyw gwyn a fyddai ganddynt, neu nad oedd ganddynt reswm dros gwyno. Serch hynny, nododd chwe chlaf a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn. Gwelwyd bod poster ynglŷn â'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG wedi'i arddangos yn nerbynfa'r ddeintyddfa. Fodd bynnag, nid oedd polisi'r practis na'r weithdrefn yn cynnwys manylion am hawl y cleifion i gael cymorth a chynngor ynghylch eu pryderon gan y Cynngor Iechyd Cymuned Lleol, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nodwyd bod print y poster yn fân, a oedd yn golygu y byddai rhai cleifion yn ei chael hi'n anodd i'w ddarllen efallai.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau y caiff cleifion y GIG wybodaeth lawn a chywir ynghylch mynegi cwynion a hynny mewn fformat sy'n hawdd ei ddarllen. Mae hyn yn unol â Safonau'r GIG.

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y polisi cwyno (pryderon). O ganlyniad, gwelsom nad oedd y polisi'n cyfeirio at y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cydnabod neu ddatrys pryderon/cwynion a fynegwyd gan gleifion sy'n derbyn gofal a thriniaeth ddeintyddol breifat. Gwnaethom ganfod nad oedd gan y practis wybodaeth wedi'i harddangos ar gyfer cleifion o'r fath, fel sy'n ofynnol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod yr wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, ac wedi'i harddangos yn glir ar gyfer cleifion.

Roedd gan y practis wefan fanwl iawn, a diweddarwyd y cynnwys yn rheolaidd. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth berthnasol ar gael i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth ddeintyddol.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gwelsom fod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal â mewn argyfwng. Golygai hyn y gallai pobl fod yn hyderus, pan fyddent mewn poen, fod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael apwyntiad yn fuan.

Ymhlith y sylwadau eraill a wnaed gan gleifion ynghylch y gwasanaeth a gawsant yn y practis hwn oedd:

'Credaf fod y staff i gyd yn wych'

'Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon ar y gwasanaeth a roddir gan y ddeintyddfa hon'

'Des i o hyd i'r practis hwn ar y we a gwnaeth yr adolygiadau argraff arna i. Rydw i wedi derbyn triniaeth ragorol gan yr holl staff'

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Roeddem o'r farn bod y cyfleusterau clinigol yn y practis o safon dda. Roedd trefniadau addas ar waith ar y cyfan ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel ac i leihau'r perygl o groes-heintio.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn cynnwys gwybodaeth gyson a manwl a oedd yn eglur, yn berthnasol ac yn hawdd i'w dilyn. Dangosai hyn fod gofal a thriniaethau wedi cael eu cynllunio er mwyn sicrhau bod safon dda i'r gofal a bod pwyslais ar ddiogelwch cleifion.

Nodwyd dau faes sydd angen eu gwella. Roedd y rhain yn ymwneud â chynnwys ffeil diogelwch ymbelydredd y practis a rhai elfennau o'r broses ddadheintio.

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd y ffeil diogelwch ymbelydredd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf o ran yr hyfforddiant ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)² a gwblhawyd gan y tîm deintyddol. Wrth drafod â'r prif ddeintydd, deallom na throsglwyddwyd gwybodaeth am y fath hyfforddiant o system gyfrifiadurol y practis i'r ffeil ar ffurf copi caled. Gwelsom hefyd nad oedd manylion y cynghorydd diogelwch ymbelydredd wedi'u nodi'n amlwg yn y ffeil. Yn ogystal, mae angen diweddarau'r polisi diogelwch ymbelydredd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol ar y practis i sicrhau bod y ffeil diogelwch ymbelydredd yn cynnwys yr wybodaeth i gyd yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Cadarnhawyd gennym fod cyfarpar pelydr-X y ddeintyddfa wedi cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd, a gwelwyd rheolau lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn y ffeil diogelwch ymbelydredd. Roedd ansawdd delweddau pelydr-X wedi bod yn destun archwiliadau rheolaidd fel rhan o'r broses barhaus o sicrhau ansawdd.

² Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, y cyfeirir atynt fel arall fel RhYI(DM).

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag amrywiaeth o argyfyngau cleifion. Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael i'r staff pe bai argyfwng claf (llewygu) yn digwydd yn y practis. Storiwyd y rhain yn ddiogel.

Ymatebodd y practis yn gadarnhaol i'n sylwadau ar wella'r system sydd ar waith ar gyfer archwilio cyffuriau brys bob wythnos, yn unol â chanllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU. Mae hyn oherwydd nad oedd y rhestr wirio a oedd ar waith ar adeg ein harolygiad yn manylu ar ba gyffuriau oedd yn y pecyn argyfwng, na'u dyddiadau dod i ben. Golygai hyn fod posibilrwydd o esgeuluso rhai elfennau ar y broses o archwilio cyffuriau.

Gwelsom dystysgrifau mewn ffeiliau staff a oedd yn dynodi eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio ag achosion meddygol brys a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf ar gael bob amser yn y practis.

Roedd dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Roedd yr hyn o wastraff a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio'n ddiogel dan glo cyn ei fod yn cael ei gasglu. Gwelsom hefyd fod gan y practis bolisi cyfredol a oedd yn ymwneud â thrafod a rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH).

Rhoesom ystyriaeth i'r trefniadau ar gyfer dadheintio (glanhau a sterileiddio) offer a ddefnyddir yn y practis, ac ar gyfer cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05).³

Roedd ystafell ddadheintio ar wahân yn y practis, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Ond, yn sgil prinder lle yn y practis, defnyddid yr ystafell ddadheintio hefyd ar gyfer paratoi te a choffi, nepell oddi wrth y man 'brwnt' dynodedig. Roedd y llen rannu ar y bwrdd gweithio'n ddi-raen ac nid oedd yn gwahanu'r ddau fan yn llwyr. Golygai hyn fod posibilrwydd y gallai llestri a chyllyll a ffyrnc y staff gael eu heintio.

Sylwom nad oedd staff yn gwneud defnydd llawn o offer diogelu personol. Yn benodol, nid oeddent yn defnyddio sbectolau diogelu'r llygaid ac nid oedd ffedogau untro ar gael iddynt i ddiogelu eu dillad yn ystod y broses lanhau, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Wrth fwrw golwg ar ddiwyg cyffredinol yr ystafell ddadheintio, amlygwyd nad oedd y llawr wedi'i selio ar hyd gwaelod y cypyrddau ym man yr offer 'brwnt'. Roedd hefyd twll bychan agored yn y llawr. Roedd y materion hyn yn creu anawsterau wrth lanhau'r llawr ac ymdrin â cholledion hylif.

Gwelsom nad oedd sêl rhwng teils y wal a'r bwrdd gweithio ar ochr offer 'brwnt' yr ystafell. Yn absenoldeb y sêl, gallai hylifau glanhau ddiferu trwyddo i'r cypyrddau a heintio'r cynnwys.

Roedd dau sinc yn yr ystafell ddadheintio, a dywedwyd wrthym fod un ohonynt wedi'i neilltuo ar gyfer golchi dwylo. Fodd bynnag, cynghorwyd y practis i osod arwydd uwchben y sinc i egluro'i bwrpas.

Trafodwyd y materion uchod i gyd gyda'r prif ddeintydd, a fynegodd barodrwydd i gymryd camau i'w datrys, ar y cyd â'r landlord sy'n gyfrifol am y safle.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y practis i ddangos sut y bydd yn gwneud gwelliannau i'r ystafell a'r broses ddadheintio, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a safonau'r GIG.

Dangosodd ein sgysiau â'r staff eu bod yn ddigon ymwybodol o'r weithdrefn angenrheidiol ar gyfer glanhau offer. Roedd cofnodion yn ategu hyn ac yn cadarnhau bod archwiliadau dyddiol wedi'u cynnal ar yr offer. Yn weledol, roedd y cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da. Gwelsom hefyd fod offer yn cael ei roi mewn pecynnau priodol ar ôl ei sterileiddio.

Rhoddyd copi inni o archwiliad rheoli heintiau a gwblhawyd ym mis Chwefror 2013 gan ddefnyddio dull cydnabyddedig sy'n cyd-fynd yn benodol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn galluogi'r tîm deintyddol i asesu eu practis drostynt eu hunain, ar sail y canllawiau, ac i ddatblygu cynllun gwella fel rhan o'r broses wella barhaus sy'n ofynnol. Datgelodd ein trafodaethau gyda'r tîm deintyddol hefyd fod pwyslais ar hyrwyddo gwasanaeth diogel, o ansawdd, drwy gynnal gwiriadau dyddiol ac wythnosol mewn perthynas â defnyddio offer deintyddol.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn nhair o'r pedair ystafell driniaeth yn y practis. Gwelsom fod y rhain o safon uchel a'u bod yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd y practis yn defnyddio system cofnodion cleifion electronig; cedwid cofnodion papur wedi'u harchifo mewn ail leoliad nepell i ffwrdd o'r brif ddeintyddfa. Rhentwyd yr ail leoliad ar les yn ddiweddar yn sgil y prinder lle

gweinyddol sydd ar gael. Er bod mwyafrif helaeth o'r cofnodion cleifion yn yr adeilad hwnnw wedi'u storio'n ddiogel, gwelsom nifer fechan o gofnodion ac eitemau deintyddol mewn bocsys ar y llawr. Trafodwyd hyn gyda'r tîm deintyddol, a gytunodd i weithredu'n fuan iawn ar y mater.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth fanwl a chyson a oedd yn glir, yn berthnasol ac yn hawdd i'w dilyn. Dangosai hyn fod gofal wedi cael ei gynllunio er mwyn sicrhau gofal o safon dda gyda phwyslais ar ddiogelwch cleifion.

Canfuom fod y tîm deintyddol yn gwneud defnydd da o dempledi cyfrifiadurol i gofnodi gofal a thriniaethau a gynlluniwyd i gleifion, ac nid oedd gorddibyniaeth ar 'nodiadau awtomatig' (awgrymiadau electronig i helpu deintyddion i lenwi gwybodaeth). Golygai hyn fod cofnodion cleifion yn unigol iddyn nhw, yn unol ag arfer da. Gwelsom hefyd fod deintyddion wedi cofnodi'r rheswm dros gynnal archwiliadau pelydr-X ac yn gyffredinol yn darparu tystiolaeth o gynlluniau, opsiynau a thrafodaethau am driniaeth a gynhelid gyda chleifion. Yn ogystal, roedd cofnodion cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth am hanesion meddygol newydd a diweddaedig, sy'n ffactor bwysig wrth bennu triniaeth ddeintyddol barhaus.

Wrth drafod â'r prif ddeintydd, cynghorwyd y byddai o bosib yn well i gael cydsyniad gwybodus y claf drwy ddefnyddio taflenni gwybodaeth sylfaenol a ellid eu cynhyrchu drwy feddalwedd gyfrifiadurol y practis.

Roedd tystiolaeth yn yr holl gofnodion cleifion a welwyd o alw'r claf yn ôl ysbaid benodedig, fel yr argymhellir yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Gwelsom fod y practis wedi bod yn rhagweithiol wrth gyfeirio unrhyw achosion o bryder (ynghylch cleifion) at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis deintyddol yn sefydledig ac yn cael ei redeg yn dda gan y prif ddeintydd. Câi gefnogaeth rheolwr y practis a thîm eiddgar a brwdfrydig. Roedd gan y practis systemau rheoli a phrosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.

Practis deintyddol annibynnol yw Wyndham House sydd wedi'i hen sefydlu ac a brynwyd gan y prif ddeintydd presennol yn 2001.

Mae'r prif ddeintydd yn hyfforddwr Deintyddol Sylfaenol cymwys. O ganlyniad, mae'r practis yn cynnig lleoliadau a chymorth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n cyflawni eu blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau eu gradd brifysgol).

Roedd y prif ddeintydd wedi cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, gyda chymorth rheolwr y practis (sydd hefyd yn gweithio yn y practis fel nyrs ddeintyddol ran-amser). Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn derbyn cefnogaeth dda wrth eu gwaith ac yn gallu cael cyngor am agweddau o'u gwaith yn ôl yr angen.

Yn ystod trafodaethau â'r ddeintyddion ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol, gwelwyd eu bod yn cymryd rhan weithredol yn y broses o redeg a rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd ystod o systemau rheoli a phrosesau ar waith i sicrhau bod triniaethau'n cael eu rhoi'n ddiogel i gleifion. Er enghraifft, gwelsom dystiolaeth o archwiliad hunanasesu a wnaed yn ddiweddar mewn perthynas â sicrhau ansawdd, ynghyd â dau archwiliad arall yn ymwneud ag ansawdd cofnodion cleifion a rhagnodi gwrthfotigau i gleifion. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion fod yn hyderus eu bod yn ddiogel oherwydd bod y busnes yn cael ei redeg yn dda, a bod gofal a sylw dyledus yn cael eu rhoi i safonau gofal iechyd a rheoliadau.

O drafod â rheolwr y practis, gwelwyd bod lefelau trosiant a salwch/absenoldebau staff yn isel. Hefyd, ni fu angen i'r practis ddefnyddio nyrsys asiantaeth hyd yn hyn. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth gan dîm deintyddol a oedd yn gyfarwydd iddynt.

Gwelsom fod rhaglen gynefino a sefydlu briodol ar gael i sicrhau bod staff newydd yn cael hyfforddiant sefydlu effeithiol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff a oedd yn cael cefnogaeth a hyfforddiant cymwys.

Dywedodd y staff y siaradom â nhw eu bod yn fodlon yn eu swyddi yn y practis deintyddol, a bod yr holl dîm yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd staff bob chwe wythnos ac y darperir nodiadau ar eu cyfer a gofnodwyd yn ystod cyfarfodydd diweddar. Dangosai'r nodiadau fod amrywiaeth o bynciau perthnasol wedi cael eu trafod, gan gynnwys rheoli'r gwastraff clinigol a gynhyrchir gan y practis a defnyddio cyfarpar diogelu personol. Cadarnhawyd yn ystod ein sgysiau â'r staff bod unrhyw bryderon ynghylch darparu gofal a thriniaeth i gleifion yn cael eu trafod yn anffurfiol bob wythnos, ac y gwneir gwelliannau i ddarpariaeth y gwasanaeth yn unol â hynny.

Gwnaethom fwrw golwg ar ddwy ffeil datblygiad proffesiynol parhaus, a gwelwyd bod pob aelod o staff dan sylw wedi derbyn cyfleoedd hyfforddiant perthnasol. O drafod â'r staff, gwelwyd hefyd bod hyfforddiant yn cael ei annog yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd â sgiliau addas ac sydd wedi diweddarau eu hyfforddiant.

Gwelsom fod staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar ar amddiffyn plant ac oedolion. Wrth sgwrsio â'r tîm deintyddol, deallwyd eu bod wedi gwneud cyswllt priodol â'r tîm diogelu lleol ar un achlysur yn y deuddeg mis diwethaf.

Gwelwyd tystiolaeth o roi brechiadau hepatitis B ac o gofnodion imiwnedd yn y ffeiliau staff. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau priodol i amddiffyn staff a chleifion. Dywedwyd wrthym hefyd bod cymorth a chynghor ar gael i'r tîm deintyddol gan adran iechyd galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ôl yr angen.

Roedd y ddeintyddfa'n cofnodi unrhyw ddigwyddiadau neu anafiadau i staff a chleifion mewn llyfr damweiniau, ac roedd y fformat a'r cynnwys yn cyd-fynd â Deddf Diogelu Data 1988. Yn ôl y cofnodion, ni fu anafiadau yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Gwelsom amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw yn y practis. Felly, roeddem yn gallu cadarnhau bod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei archwilio yn unol â'r gofynion rheoliadol, fel bod cleifion yn gallu cael eu trin yn ddiogel.

Roedd dystysgrifau AGIC yn ymwneud â'r ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis wedi'u harddangos yn nerbynfa'r ddeintyddfa. Roedd yr wybodaeth yn gywir ym mhob achos.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd safle'r practis yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Roedd pob rhan o'r adeilad yn lân, yn groesawgar, yn ffres ac yn daclus.

Mae Practis Deintyddol Wyndham House ar Boverton Road, Llanilltud Fawr, ac yn gweithredu ar ddau safle. Yn benodol, rhoddir gofal a thriniaeth ddeintyddol ar un safle tra bod elfennau gweinyddol y gwasanaeth yn digwydd mewn ail leoliad tua 50 llath i ffwrdd o'r ddeintyddfa. Nid yw cleifion yn cael myned i'r swyddfa weinyddol.

Roedd dau le parcio yn union y tu allan i'r ddeintyddfa. Roedd cleifion hefyd yn gallu parcio mewn maes parcio mawr cyfagos sy'n rhad ac am ddim, neu ar strydoedd cyfagos.

Roedd llawr daear y practis deintyddol yn cynnwys derbynfa ac un ystafell driniaeth, gan alluogi cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i gael gofal a thriniaeth ddeintyddol mewn modd diogel. Ceid yr ystafelloedd triniaeth sy'n weddill ar lawr cyntaf yr adeilad; darperid rheiliau llaw i gynorthwyo cleifion wrth ddefnyddio'r grisiau.

Gwelsom fod un ystafell aros fach ar y llawr daear a dwy arall ar y llawr cyntaf, a rhyngddynt roedd digon o le i'r cleifion aros o ystyried sawl ystafell driniaeth oedd yno.

Roedd tŷ bach ar gyfer cleifion a staff ar y llawr cyntaf ac arwyddion clir ato. Deëllir wrth sgwrsio â'r staff bod cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn yn derbyn gwybodaeth am leoliad tai bach cyhoeddus sy'n agos i'r safle.

Gwelsom fod gan y practis ddogfennaeth ddilys ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Roedd pob rhan o'r adeilad yn lân, yn groesawgar, yn ffres ac yn daclus. Gwelsom fod y practis wedi'i wresogi a'i awyru'n ddigonol a bod ganddo oleuadau addas.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion wedi'u harddangos yn glir ar flaen yr adeilad, ynghyd â rhif ffôn y practis.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad Cleifion a Chyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Mae manylion y rhain i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut a phryd y bydd Practis Deintyddol Wyndham House yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Wyndham House

Dyddiad yr Arolygiad: 25 Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
Tudalen 7	Dylai'r practis sicrhau y caiff cleifion y GIG wybodaeth lawn a chywir ynghylch mynegi cwynion a hynny mewn fformat sy'n hawdd ei ddarllen. Mae hyn yn unol â Safonau'r GIG.			
Tudalen 7	Dylai'r practis sicrhau bod yr wybodaeth am gwynion yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, ac wedi'i harddangos yn glir ar gyfer cleifion.			
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 9	Mae'n ofynnol ar y practis i sicrhau bod y ffeil diogelwch ymbelydredd yn cynnwys yr wybodaeth i gyd yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.			
Tudalen 11	Cynghorir y practis i ddangos sut y bydd yn gwneud gwelliannau i'r ystafell a'r broses ddadheintio, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a safonau'r GIG.			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema hon.			
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ymwneud â'r thema hon.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: